



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



8 Medi 2022

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yn ymateb i

Arolygiad Thematig ar y Cyd o Drefniadau Amlasiantaethol gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA)

Mae'n galonogol darllen bod yr adolygiad wedi canfod arweinyddiaeth gref ar lefel genedlaethol drwy'r tîm MAPPA cenedlaethol a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

Rwy'n hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys yn canolbwyntio'n sylweddol ar reoli troseddwr yn effeithiol. Yn ystod eu harolygiad Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021, cafodd llawer o'r meysydd a amlygwyd o fewn yr adroddiad diweddar hwn eu hadolygu. O ganlyniad, barnwyd bod gan Heddlu Dyfed-Powys drefniadau rheoli troseddwr digonol.

Mewn ymateb i bedwar o'r argymhellion sy'n cael eu codi o fewn yr adroddiad:

Dylai'r Gwasanaeth Prawf, heddluoedd a charchardai sicrhau:

Argymhelliad 14

Gwneir atgyfeiriadau Categori 3 i reoli unigolion sydd mewn risg uchel o gam-drin domestig lle byddai rheoli a goruchwyllo amlasiantaethol ffurfiol trwy MAPPA yn ychwanegu gwerth i'r cynllun rheoli risg.

- Yr asiantaethau a enwir yn yr argymhelliad hwn yw'r partneriaid statudol ar gyfer MAPPA.
- Mae canllawiau'r tîm MAPPA cenedlaethol ynghylch defnyddio Categori 3 ar gyfer troseddwr cam-drin domestig wedi cael ei ddefnyddio i frifio Cadeiryddion MAPPA ac Ymarferwyr Heddlu. Cafodd hefyd ei drafod ym Mwrdd Rheoli Strategol MAPPA a'r grŵp MAPPA Gweithredol.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnal adolygiad mewnol o'u defnydd o gyfeiriadau Categori 3 ac maen nhw'n fodlon eu bod yn defnyddio hwn i reoli prosesau cam-drin domestig risg uchel. Mae carfan MAPPA'r Heddlu wedi cael ei hadolygu ac mae'r rhai sydd wedi arddangos ymddygiad cam-drin domestig wedi'u nodi, gyda'r gwaith i fynd i'r afael â hyn wedi'i nodi drwy gynlluniau rheoli risg. (Mae hyn yn cyfeirio at bob troseddwr MAPPA ac nid yw wedi'i gyfyngu i atgyfeiriadau Categori 3 ar gyfer cam-drin domestig.)
- Mae'r Heddlu wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith goruchwylwyr rheng flaen o gyfleoedd rheoli troseddwr drwy MAPPA.
- Mae cynllun gweithredu i wella'r ymateb i ymlid troseddwr yn ddi-baid o dan y fframwaith Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG). Mae hyn



wedi nodi cyfleoedd ar gyfer mwy o gyfathrebu mewnol ynghylch rheoli troseddwy, hyfforddiant a gweithdai er mwyn uwchsgilio staff.

- Mae'r Heddlu wedi adolygu eu defnydd o'r garfan 'rydd' o Reoli Troseddwyr Integredig (IOM) ac yn fodlon eu bod yn defnyddio'r cyfle hwn i reoli troseddwyr cam-drin domestig risg uchel lle bo hynny'n briodol, gan ddarparu strwythur, rheoli partneriaethau a chyfleoedd cyfeirio rheolaidd.
- Mae cynrychiolwyr IOM a MAPPA yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cyfleoedd i reoli o dan un neu'r ddau gynllun yn cael eu hystyried yn eu hatal rhag bod yn ecsgliwsif i'w gilydd. Mae hyn yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer rheoli troseddwyr effeithiol ac effeithlon.

Argymhelliad 15

Mae strategaeth hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer yr holl staff sy'n rhan o'r broses MAPPA sy'n defnyddio pecynnau hyfforddi presennol yn llawn ac sy'n sicrhau y gallant alluogi staff ym mhob rôl i baratoi ar gyfer a chyflwyno neu gyfrannu at achos mewn fforwm amlasiantaethol a deall sut mae MAPPA yn cyd-fynd â fforymau amlasiantaethol eraill, megis Cynadleddau Rheoli Troseddwyr ac Amlasiantaeth Asesu Risg Integredig (MARACs).

- Mae pob Rheolwr a Goruchwyliwr Troseddwyr yn mynychu'r cyrsiau Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar (MOSOVO) a Rheoli Risg Gweithredol (ARM).
- Mae swyddogion IOM Dyfed-Powys yn cael eu hyfforddi i'r un safon â staff MOSOVO er mwyn sicrhau eu bod yn deall MAPPA. Mae hyn yn gwella gwytnwch yr Heddlu o ran MOSOVO. Mae hyn hefyd yn caniatáu i staff IOM adnabod y rhai y mae angen eu cyfeirio ar gyfer rheolaeth MAPPA trwy'r prosesau Pobl a allai fod yn Beryglus (PDP) neu Gategori 3.
- Ar hyn o bryd mae'r Heddlu'n darparu dysgu ar-lein sy'n cwmpasu prosesau IOM/Diogelu a chyfeirio mewnol. Mae gwaith ar droed i sefydlu cwrs hyfforddiant cynhwysfawr a phwrpasol i Dyfed-Powys o 2023.
- Mae pob Cadeirydd MAPPA yn mynychu sesiwn ragarweiniol gyda Chydlynnydd MAPPA'r Heddlu ac yna fe'u gwahoddir i sesiynau rheolaidd lle maent yn cael eu briffio ar ganllawiau newydd, prosesau ac adborth o'r broses archwilio reolaidd. Cefnogir y cyfarfodydd hyn gan gylchlythyr Cadeiryddion MAPPA.
- Mae canllawiau'r Heddlu'n glir, lle mae diddordebau sy'n cystadlu gyda MARAC a MAPPA, yna mae MAPPA yn cael y flaenoriaeth.



Dylai lluoedd heddlu sicrhau:

Argymhelliad 18

Mae pob MAPPA yn cael eu rheoli ar Lefelau 2 a 3 yn cael eu dyrannu i reolwr troseddwr heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n addas.

- Mae holl staff MOSOVO wedi'u hyfforddi yn unol â'r sylwadau uchod. Er mwyn rheoli absenoldebau, mae'r Heddlu'n sicrhau bod staff IOM wedi'u hyfforddi'n addas ac yn gallu darparu gwytnwch pan fo angen.

Argymhelliad 19

Mae llwyth gwaith ar gyfer staff sy'n rheoli troseddwr rhyw yn cael eu hadolygu yn erbyn disgwyliadau cenedlaethol ac, lle y gwelir eu bod yn ormodol, dylid cymryd camau i liniaru a chyfathrebu hyn i staff yr effeithir arnynt.

- Mae niferoedd nominal MAPPA a'u lefelau risg yn cael eu hadrodd yn y data perfformiad misol i'r heddlu. Adroddir hyn yn y Bwrdd Bregusrwydd Strategol chwarterol sy'n rhan o strwythur llywodraethu'r heddlu.
- Nod yr Heddlu yw rheoli niferoedd eu troseddwr yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae nifer y troseddwr sy'n cael eu rheoli yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uwch na'r hyn a argymhellir (12% a 28% yn y drefn honno), fel yr amlygwyd yn Natganiadau Rheoli'r Heddlu yn 2020 a 2021. Fodd bynnag, mae'r Heddlu wedi nodi a dyrannu adnoddau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â hyn a dylid ei wireddu ym mis Hydref 2022.

Mae'r ymateb cynhwysfawr a gafwyd gan yr Heddlu wedi rhoi sicrwydd i mi fod llawer iawn o waith wedi'i wneud i wella ym maes MAPPA. Rwyf wedi cael sicrwydd gan Heddlu Dyfed-Powys y dylai'r camau hyn arwain at well gradd mewn arolygiadau yn y dyfodol.